# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 13.2.19 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Ian Williams (Cadeirydd), Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, John Griffiths, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Ymddiheuriadau:** Malcolm Hills, David Griffiths, Huw Davies.

2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 09.01.19 fel rhai cywir.
**Cynnig –** Keith Carroll **Eilio –** Kevin Goodchild **Arwyddwyd –** Ian Williams.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (09.01.19):**

a) **Ben Davies a Sam Hadley - Network Rail - *"Rhwystrau Diogelwch/wal derfyn - ffordd rhwng Llwyngwril i Friog".***

Neges wedi ei dderbyn ar y 12.02.19, gan Claire Hickman, Rheolwr Cymorth i Gwsmeriaid Network Rail, i ddweud na fyddai Ben Davies a Sam Hadley NWR yn gallu mynychu'r cyfarfod ar 13.02.19, fel ag y trefnwyd - i drafod yr uchod.
Aelodau'r cyngor yn siomedig fod neb o NWR wedi gallu dod i'r cyfarfod, a bod Network Rail yn dal methu cadarnhau pryd fydd y gwaith ar y wal derfyn a'r rhwystrau diogelwch ar y ffordd yma yn cael ei wneud, er bod y Cyngor Cymuned wedi bod mewn cysylltiad â Chyngor Gwynedd a NWR ers rhai blynyddoedd bellach, yn pwysleisio pwysigrwydd y rhwystrau diogelwch yma, ar sail diogelwch pawb sydd yn defnyddio'r ffordd yma.

**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Phrif Weithredwr Network Rail, Rheilffordd Arfordir y Cambren, i gael eu hymateb. Cysylltu â Liz Saville Roberts a Dafydd Elis Thomas, i ofyn a ydynt yn fodlon cysylltu â Network Rail, i bwysleisio pwysigrwydd y gwaith adnewyddu, ac i geisio hwyluso'r gwaith sydd angen cael ei wneud yma.

a) **Problem parcio** ➞ cwyn wedi ei gyfeirio i'r Tîm Cymdogaethau Diogelwch.
b) **Persbecs newydd i'r Hysbysfwrdd** ➞ Middleton Glass wedi cysylltu i gadarnhau nad ydynt yn gwerthu persbecs.

5. **Gohebiaeth:**

a) **Mynwent y Crynwyr, Llwyngwril -** derbyn llythyr gan Mr Tom Brown, yn cadarnhau ei fod wedi ymweld â'r safle ac wedi ail leoli Hysbysfwrdd y Crynwyr, ac wedi rhoi arwydd newydd i fyny wrth giât y Fynwent.
b) **Gorchymyn Cyngor Gwynedd** – cau'r ffordd ddi-ddosbarth gyferbyn a Fferm y Nant, Llwyngwril – 04.03.19 ➞ Rhybudd i'w roi ar hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned.
c) **Un Llais Cymru** - derbyn Agenda'r cyfarfod nesaf - 20.02.19, a chofnodion y cyfarfod diwethaf.
d) **Gwahoddiad** i fynychu swyddfa newydd Ambiwlans Awyr Cymru - Maes Awyr Dinas Dinlle - 20.02.19.
e) **Parc Cenedlaethol Eryri** - derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar Gynllun Datblygu Lleol Eryri.
f) **Eisteddfod Llangollen 2019** - cais am gyfraniad ariannol ➞ pawb yn gytûn i beidio cefnogi'r cais yma.

g) **Tenovus Gofal Canser, Gogledd Cymru -** cais am gyfraniad ariannol ➞ cytuno i gefnogi
h) **Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Gogledd Cymru –** cais am gyfraniad ariannol ➞ cytuno i gefnogi
i) **Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd** – cais am gyfraniad ariannol ➞ cytuno i gefnogi
**Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i gefnogi'r tri mudiad uchod ➞ **£25.00** yr un
**Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** Keith Carroll.

6. **Materion Cynllunio:**
   a) **NP5/69/LB150C - Tŷ Nant, Llwyngwril**
   Nodwyd fod Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd wedi cysylltu â Pharc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â'r cais yma ac argymell amodau penodol ar unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir gan y Parc.

7. **Adroddiad Ariannol**: Derbyniwyd Adroddiad Mis Ionawr 2019 yn gywir.
   **Cynnig –** Geraint Edwards **Eilio –** Geraint Micah **Arwyddwyd –** Ian Williams.

   a) **Archwiliad Mewnol 31.03.19** – pawb yn gytun i ofyn i Adran Archwilio Cyngor Gwynedd wneud yr archwiliad mewnol i'r Cyngor Cymuned eto eleni.

   b) Siec 100743: Rhodd i'r Ganolfan = £1,000.00
   c) Siec 100745: Rhodd i Fynwentydd y plwyf = £500.00
   d) Siec 100744: Rhodd i Ambiwlans Awyr Cymru = £250.00

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Derbyn adroddiad Louise Hughes.

10. **Unrhyw Fater Arall:**
   **Materion Cymunedol – Cyngor Gwynedd**
   a) Nodwyd fod y bin mawr gwyrdd ger St George's, Llwyngwril o hyd yn orlawn cyn y dyddiad mae i fod i gael ei wagu. Mae'r bin gwyrdd yma yn gwasanaethu 6 o dai - sydd heb gyfleusterau ailgylchu priodol.
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn a oes modd cael rac ailgylchu - fel sydd yn Rhoslefain a ger Fferm y Nant yn Llwyngwril.
   b) Sianelu dŵr /cylfat wedi blocio ar riw Gwastadgoed ➞ hysbysu Cyngor Gwynedd.
   c) Arwyddion ffordd Cyngor Gwynedd heb gael eu clirio wedi i'r gwaith gael ei orffen ➞ hysbysu Cyngor Gwynedd.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher 13.03.19 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**